**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Drwy e-bost at:
ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

06/01/2025

Annwyl Gomisiwn,

**Adolygiad 2026 o etholaethau'r Senedd: Cynigion diwygiedig**

Diolch yn fawr am y gwahoddiad i ymateb yn swyddogol i'r cynigion diwygiedig ar gyfer enwau'r etholaethau. Rydym yn falch o'r cyfle i ymateb eto fel ymgynghorai statudol ar yr enwau hyn. Rydym, wrth gwrs, wedi bod yn ymateb i ymholiadau penodol am yr enwau yn ystod cyfnod llunio'r cynigion diwygiedig ac mae'r adroddiad yn cyfleu eisoes ein bod ni'n fodlon ag orgraff y ffurfiau a gynigiwyd.

Rhaid eich llongyfarch chi ar yr enwau newydd sydd gerbron. Maen nhw'n adlewyrchu'r ffaith eich bod chi wedi gwrando'n astud ac yn ymatebol ar yr adborth a roddwyd yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol. O ganlyniad, mae'r enwau diwygiedig yn fwy cryno, eglur a hylaw o lawer. Hawdd dychmygu sut y gallant ennill eu plwyf ym meddyliau etholwyr a phawb sydd â diddordeb mewn democratiaeth yng Nghymru.

Maent yn enwau sy'n rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ac yn dathlu ei chyfoeth enwau lleoedd. Ond mae pob un o'r enwau a'r elfennau a ddewiswyd yn amlwg ac yn adnabyddus hefyd. Rydych wedi llwyddo i ganfod enwau unigol addas ar gyfer trwch yr etholaethau ac eithrio'r rhai sy'n defnyddio pwyntiau'r cwmpawd. Rydym yn deall bod hon yn her benodol ac mae'n flin gen i nad oes gennym ni enwau amgen amlwg i'w cynnig y tro hwn. Y ffordd amlycaf o ganfod enwau unigol yn yr achosion hyn fyddai penderfynu defnyddio'r ffurfiau Cymraeg yn unig. Byddai cael un enw i'w ddefnyddio ym mhob iaith yn gymwynas â'r defnyddiwr yn y pen draw ac yn ffordd o ddileu unrhyw amwysedd ac anghysondeb posibl. Fodd bynnag, os bydd cynigion addasach yn dod i law drwy'r broses ymgynghori, dyma bwysleisio eto y byddai fy Mhanel Safoni Enwau Lleoedd ar gael i'ch cynghori ymhellach.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Rydym yn falch o gefnogi, felly, y rhestr o enwau diwygiedig sydd gerbron ac yn teimlo bod yr enwau yn gydnaws ag ysbryd y Ddeddf sy'n creu gofyniad i bob etholaeth Seneddol gael 'enw unigol' oni bai fod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol. Mae'n gwbl amlwg fod y Comisiwn wedi cymryd y cyfarwyddyd hyn o ddifri ac wedi gwneud pob ymdrech i lunio rhestr sydd, nid yn unig yn synhwyrol, ond hefyd yn ddatganiad o blaid statws y Gymraeg yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi e-bost at: Shereen Williams, Prif Weithredwr/Ysgrifennydd